



Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor

These Minutes are subject to approval at the next appropriate meeting of the Panel

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF  
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**

**Amlogfa Llwydcoed**

Cofnodion o gyfarfod Cyd-bwyllgor Amlogfa Llwydcoed a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Merthyr Tudful brynhawn Mawrth, 28 Mai 2019 am 2pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol - Amlogfa Llwydcoed Aelodau yn bresennol:-**

**Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

Y Cynghorydd M Colbran    Y Cynghorydd J Thomas  
Y Cynghorydd D Isaac      Y Cynghorydd D Chaplin

**Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

Y Cynghorydd A Fox    Y Cynghorydd H Boggis  
Y Cynghorydd G Jones    Y Cynghorydd A Crimmings

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms L Coughlan, Cyfreithiwr  
Mr S Preddy, Cyfrifydd Grŵp  
Ms J. Lewis, Rheolwr Gwasanaethau Profedigaethau

**1        YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol K. Morgan (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf).

**2        DATGAN BUDDIANT**

Doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

**3        ETHOL CADEIRYDD CYDBWYLLGOR AMLOGGFA LLWYDCOED AR GYFER 2019-20**

**PENDERFYNWYD** ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Isaac yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor ar gyfer blwyddyn 2019-20 y Cyngor.

**4 ETHOL IS-GADEIRYDD CYDBWYLLGOR AMLOSGFA LLWYDCOED AR GYFER 2019-20**

**PENDERFYNWYD** ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol H. Boggis yn Is-gadeirydd y Cydbwyllgor ar gyfer blwyddyn 2019-20 y Cyngor.

**5 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion o gyfarfod Cydbwyllgor Amlogsgfa Llwydcoed a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2019 yn rhai cywir.

**6 ADRODDIAD RHEOLWR Y GWASANAETHAU PROFEDIGAETHAU**

Yn ei hadroddiad, rhoddodd y Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaethau Ystadegau a ffigurau Cyflawniad i'r Aelodau sy'n ymwneud â gweithrediad yr Amlogsgfa ers y cyfarfod diwethaf ac yn dilyn ystyried yr eitemau hynny, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth.

**7 ADRODDIAD Y TRYSORYDD  
ADRODDIAD BLYNYDDOL (DRAFFT) AR GYFER Y FLWYDDYN SY'N  
DOD I BEN 31 MAWRTH 2019**

Trafodwyd adroddiad y Trysorydd gan yr Aelodau.

Cafodd aelodau wybodaeth mewn perthynas â'r materion:

- Cyflawniad ariannol a thrafodion cronfeydd mae modd eu defnyddio
- Mantolen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019
- Gweddillion y Gronfa gyffredinol 2013/14 hyd at 2018/19

Yn dilyn ystyried a thrafod y mater, gan hynny, **PENDERFYNWYD –**

- (1) Nodi'r adroddiad.
- (2) Nodi'r Datganiad Blynyddol sydd ddim wedi'i archwilio am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 fel y mae wedi'i gyflwyno.
- (3) Bod Cadeirydd y Cyd-bwyllgor yn llofnodi'r Adran Cymeradwyo ac Ardystio sy'n rhan o'r Adroddiad Blynyddol.
- (4) Nodi a chymeradwyo'r Adroddiad Terfynol Archwilio Mewnol

**8 UNRHYW FATERION ERAILL**

Mynegodd yr Aelodau bryder ynglŷn â gorlifiad y maes parcio yn Amlogsgfa Llwydcoed yn ystod seremonïau amlogsgfa.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD** cynnal prawf dichonoldeb ar y safle i asesu'r problemau parcio a godwyd.

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd mewn perthynas â'r systemau camera sefydlog yn Amlogsgfa Llwydcoed, dywedwyd y byddai'r mater hwn yn cael ei adolygu yn y dyfodol agos.

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.23pm**

**Cadeirydd**